Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

# Crynodeb o'r Adolygiad Pellach o Ddulliau Rheoli Cocos yng Nghymru 2013

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Trosolwg | 2 |
| Cyflwyniad | 3 |
| Diben yr Ymgynghoriad | 3 |
| Cyfnod yr Ymgynghoriad a dosbarthiad | 4 |
| Ymatebion a gafwyd | 4 |
| Cwestiynau’r ymgynghoriad | 5 |
| Ymatebion i bob cwestiwn | 7 |
| Camau nesaf | 16 |
| Proses y cymorthfeydd | 17 |
| Ymatebion y cymorthfeydd i bob cwestiwn | 18 |
| Canlyniadau terfynol | 21 |
| Atodiad A – Rhestr o Ymatebwyr | 24 |
| Atodiad B – Datganiad o ddiddordeb ar gyfer cymhorthfa | 25 |
| Atodiad C – Gwahoddiad i gymhorthfa | 26 |
| Atodiad D – Ymwrthodiad cymhorthfa | 27 |

## Trosolwg

Gweledigaeth Cynllun Gweithredu Strategol Môr a Physgodfeydd Cymru (M&FSAP) yw cael moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol ac amrywiol fiolegol. Nod M&FSAP yw cyflwyno ymagwedd ecosystemau ar gyfer rheoli ein moroedd gan ddiogelu a chadw adnoddau naturiol a defnyddio poblogaethau iach fel sail i yrru twf economaidd cynaliadwy. Yr her i reolwyr yw cael cydbwysedd rhwng yr angen i osgoi gweithgaredd sy’n niweidio’n hamgylchedd a chodi gwerth y gweithgareddau y gallwn eu cynnal yn gynaliadwy.

Mae pysgota am gocos yn rhan annatod o hanes a diwylliant arfordir Cymru. Mae pobl wedi bod yn casglu cocos i’w bwyta ers Oes Newydd y Cerrig. Mae diwydiant rhyngwladol a modern bellach wedi datblygu sydd ynghlwm â phrosesu a chyflenwi cocos i farchnadoedd yng Nghymru, Cyfandir Ewrop a gwledydd eraill. Mae cocos yn cynrychioli cyfran helaeth o weithgareddau nifer o weithwyr proffesiynol sydd ynghlwm â’r diwydiant pysgod cregyn, sy’n cynnwys casglu, prynu, prosesu, marchnata neu gyfuniad o’r rhain.

Ym mis Mawrth 2012 cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd ei fwriad i adolygu’r modd y caiff pysgodfeydd rhyngwladol eu rheoli yng Nghymru. Cwblhawyd ymgynghoriad ffurfiol llwyddiannus ar y cynigion hyn yn 2012. Mae’r canlyniadau a’r dadansoddiad wedi ysgogi ystyriaeth bellach o rai o elfennau’r ymgynghoriad, sef y fethodoleg ar gyfer dyrannu trwyddedau dan gynllun rheoli newydd ar gyfer pysgodfeydd cocos yng Nghymru.

Oherwydd hynny lansiwyd ymgynghoriad pellach i geisio eich barn ynghylch manylion y fethodoleg ddyrannu ac i egluro’r drefn ar gyfer cynllun rheoli newydd ar gyfer pysgodfeydd cocos yng Nghymru.

Isod ceir crynodeb o’r ymatebion a gafwyd.

## Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Gorffennaf a Hydref 2012 ar Reoli Cocos yng Nghymru, er mwyn casglu ymateb i'r cynigion ar y drefn newydd o reoli gwelyau cocos yng Nghymru. Byddai'r drefn reoli newydd yn sbarduno'r angen am fwy o reoleiddio er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i Bysgodfeydd Cocos ein gwlad.

Mae'r Crynodeb o'r Ymatebion i'r ymgynghoriad yn cyflwyno mandad clir ar gyfer cyflwyno trefn newydd ar gyfer Pysgodfeydd Cocos ledled Cymru, er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r pysgodfeydd a chynyddu dulliau olrhain a gorfodi. Cafwyd cefnogaeth i'r canlynol:

a) cynllun cocos diwygiedig yng Nghymru;
b) cynllun cocos diwygiedig yng Nghymru;
c) dull gwell o olrhain cocos; a
d) chyflwyno rhagor o reoliadau
e) cynllun pysgotwr/prentisiaeth;
f) gwell rheoliadau a gwaharddiadau
g) pysgota gydol y flwyddyn, ar sail cyfanswm y ddalfa a ganiateir

Er hynny, roedd hi'n amlwg bod angen rhoi sylw pellach i ganlyniadau amhendant. Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach yn amlinellu cynigion manwl Gweinidogion Cymru ar y mesurau hyn ac eraill.

## Diben yr ymgynghoriad

Lansiwyd yr ail ymgynghoriad o'r enw 'Adolygiad Pellach o Ddulliau Rheoli Pysgodfeydd Cocos yng Nghymru 2013' gyda'r nod o ateb y materion hyn oedd yn dal heb eu datrys. Casglodd yr ymgynghoriad farn ar y cynigion isod er mwyn sicrhau rheolaeth effeithiol o bysgodfeydd cynaliadwy am genedlaethau i ddod sy'n ystyried anghenion cymunedau lleol.

Roedd y prif gynnig ar gyfer Cynllun Trwyddedau Cymru Gyfan ar gyfer casglu cocos yn fasnachol, ynghyd â chynllun trwyddedau penodol ar wahân ar gyfer y prif bysgodfeydd cocos dethol. Cynigir newid (neu ddirymu) rheoliadau'r is-ddeddfau presennol hefyd.

Bu i ni hefyd gynnig cyflwyno system newydd o gofnodi daliadau gorfodol. Diben y manylion hyn fyddai gwella'r gallu i olrhain cocos er dibenion rheoli pysgodfeydd o'r mannau cynhyrchu i'r gwaith prosesu. Byddai angen y dogfennau hyn gan holl gasglwyr a phrosesyddion sydd â chocos wedi'u cynaeafu o welyau yng Nghymru a byddai angen eu cyflwyno ar gais ar unwaith.

Cynigiwyd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru'n cadw cronfa ddata o gofnodion ar gasglu pysgod cregyn a fyddai'n galluogi croeswirio yn erbyn

cofnodion eraill a gedwir gan brosesyddion. Ein bwriad yw rhannu'r gronfa ddata hon gyda rhanddeiliaid priodol megis Awdurdodau Lleol a'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Bydd cais am unrhyw drwydded yn cynnwys datganiad priodol ynghylch cytuno i rannu data gydag awdurdodau perthnasol.

### Cyfnod yr Ymgynghoriad a Dosbarthiad

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod o 12 wythnos, gan ddechrau ar 10 Gorffennaf 2013 a dod i ben ar 2 Hydref 2013. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru a dosbarthwyd llythyr i dros 2,000 o randdeiliaid yn rhoi gwybod iddynt am yr ymgynghoriad ac yn cynnwys cyfeiriad gwefan ar ei gyfer. Roedd dogfennau'r ymgynghoriad ar-lein yn unig.

## Ymatebion a Gafwyd

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Cafodd yr holl ymatebion eu dadansoddi a'u hystyried fel rhan o'r broses o benderfynu pa fesurau fydd yn cael eu rhoi ar waith. Cafwyd cyfanswm o 58 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan unigolion yn bennaf. Mae rhestr o ymatebwyr yn Atodiad A. Mae'r tabl isod yn dangos y dadansoddiad o'r ymatebion.

**Tabl 1: Ymatebion fesul sector**

| Sector | Nifer yr ymatebion | % o ymatebwyr o bob sector |
|---|---|---|
| Casglwyr Cocos | 42 | 72% |
| Diwydiant Cocos | 0 | 0% |
| Cymuned/Sefydliad gyda Diddordeb Cymunedol | 13 | 23% |
| Sefydliad Arall | 3 | 5% |
| **Cyfanswm** | **58** | **100%** |

## Cwestiynau’r Ymgynghoriad

**1)** Ydych chi’n cytuno â manylion y Cynllun Trwyddedau Cymru Gyfan a’r cynllun trwyddedau penodol ar wahân ar gyfer y prif bysgodfeydd cocos dethol fel y’u nodir yn y ddogfen ymgynghori hon?

Ydw
Nac ydw

Rheswm (os o gwbl):

**2)** Ydych chi’n cytuno y dylid pennu uchafswm trwyddedau ar gyfer pob unigolyn, er mwyn pysgota yn unrhyw un o brif bysgodfeydd Cymru? (gan gynnwys pysgodfeydd sy’n destun Gorchymyn Rheoleiddio)

Ydw
Nac ydw

Os ydych chi, beth yw’r uchafswm trwyddedau y dylid ei ganiatáu fesul person?

Un
Dwy
Tair
Pedair

Rheswm (os o gwbl):

**3)** Ydych chi’n cytuno â’r dull arfaethedig o ddyrannu trwyddedau i ymgeiswyr y prif bysgodfeydd?

Ydw
Nac ydw

Rheswm (os o gwbl):

**4)** Ydych chi’n cytuno â’r cynnig i gyflwyno isafswm maint glanio safonol o 20mm ledled Cymru? (yn amodol ar gyngor gwyddonol mewn prif bysgodfeydd a□ Chynllun Rheoli Lleol).

Ydw
Nac ydw

Rheswm (os o gwbl):

**5)** Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ar gyfer cofnodi daliad gorfodol ar gyfer yr holl gocos a gesglir yng Nghymru?

Ydw
Nac ydw

Rheswm (os o gwbl):

**6)** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

## Ymatebion i bob cwestiwn


Cafwyd cyfanswm o 50 o ymatebion. Nodir y ganran (a gyfrifwyd drwy gyfeirio at gyfanswm nifer yr ymatebion) fesul ateb o dan bob cwestiwn isod. Lle bo'n berthnasol, mae graff wrth ochr rhai atebion yn nodi canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion.

**Cwestiwn 2 - Ydych chi'n cytuno â manylion y Cynllun Trwyddedau Cymru Gyfan a'r cynllun trwyddedau penodol ar wahân ar gyfer y prif bysgodfeydd cocos dethol fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori hon?**

Fel y nodir yn y tabl isod, ar y cyfan roedd yr ymatebwyr yn cytuno gyda'r Cynllun Trwyddedu Cymru Gyfan a'r cynllun trwyddedau penodol ar wahân ar gyfer y prif bysgodfeydd cocos dethol fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori hon. O'r ymatebwyr a nododd eu bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, roedd 58% yn cytuno

| | |
|---|---|
| Ydw | 57% |
| Nac ydw | 41% |
| Dim sylw | 2% |

**<u>Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno</u>**




Roedd 52% o'r casglwyr cocos yn anghytuno gyda'r cynnig gyda'r mwyafrif yn datgan neu'n rhoi sylw tebyg i: "*mae un gwely Cocos yn ddigon i un pysgotwr ar unrhyw adeg*" gan fynegi dymuniad pellach o gadw'r gwelyau ar gyfer pysgotwyr "*lleol*".

Roedd y 48% o gasglwyr a gytunodd yn atgyfnerthu eu hatebion gyda sylwadau fel: "*byddai hyn yn lleihau potsio anghyfreithlon*", "*yn creu trefn*", "*yn galluogi symud at bysgota amser llawn*", "*gwell rheoliadau a physgota mwy diogel*" a "*chefnogi cynllun trwyddedau a reolir*".

Cafwyd cefnogaeth gan ymatebwyr o sefydliadau gan gynnwys ychydig o gyngor petai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu. Anelwyd peth o'r cyngor at y ddogfennaeth a ddylid ei chyflwyno gan y casglwyr, i gynnwys ardystiadau

iechyd a diogelwch. Cynigiwyd cyngor hefyd ar elfennau adnodd a gorfodi yn yr holl ardaloedd cynaeafu.

Cyfeiriodd y sefydliadau a anghytunodd â'r cynigion at y ffioedd fel rhai "*na allai pysgotwyr ifanc na physgotwyr hŷn lleol mo'u fforddio*".

**Cwestiwn 2 - Ydych chi'n cytuno y dylid pennu uchafswm trwyddedau ar gyfer pob unigolyn, er mwyn pysgota yn unrhyw un o brif bysgodfeydd Cymru? (gan gynnwys pysgodfeydd sy'n destun Gorchymyn Rheoleiddio)**


*Ac*

**Os felly, sawl Prif Drwydded dylid eu caniatáu fel uchafswm ar gyfer pob unigolyn?**

Fel y nodir yn y tabl isod cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr gyda'r cynigion ar gyfer uchafswm yn y nifer o Brif Drwyddedau fesul unigolyn i bysgota unrhyw brif bysgodfa yng Nghymru, gyda'r mwyafrif o'r rhai a gytunodd yn datgan bod un drwydded yn ddigonol. Bydd y set hon angen eglurdeb gan fod y cwestiwn wedi ei gamddeall (eglurir isod). Rhoddwyd proses ar waith i geisio atebion gydag eglurdeb. O'r ymatebwyr a roddodd ateb cadarnhaol neu fel arall, cytunodd 71% ohonynt.

| | |
|---|---|
| Ydw | 69% |
| Nac ydw | 28% |
| Dim sylw | 3% |

**<u>Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno</u>**




Er bod 71% o gasglwyr Cocos yn cefnogi'r angen am uchafswm o drwyddedau ar gyfer y prif bysgodfeydd, dylid cynyddu'r ffigwr hwn yn sylweddol gan ei bod hi'n amlwg na chafodd y cwestiwn ei ddeall yn iawn. Dywedodd nifer helaeth o'r 29% o'r casglwyr Cocos a oedd yn anghytuno: "*mae un drwydded yn fwy na digon i unrhyw bysgotwr, ni allwch bysgota mwy nag un gwely ar unrhyw adeg*." Yn wir mae'r datganiad hwn yn cefnogi'r cynnig, gyda'r uchafswm o drwyddedau wedi ei osod ar 'un'. Nid yw'r cwestiwn hwn wedi ei ateb yn effeithiol gan y casglwyr Cocos gan felly fod angen rhagor o ymchwil. Felly ni ellir dibynnu ar wrthwynebiad y casglwyr Cocos i'r cynnig hwn o ystyried camddealltwriaeth amlwg o'r cwestiwn. Bydd yr ymatebion a anghytunodd yn wirioneddol â'r cynigion yn cael eu dadansoddi unwaith eto unwaith y bydd yr ymatebion a oedd angen eglurdeb wedi eu casglu.

Roedd y sylwadau gan gasglwyr yn cefnogi'r cynigion yn amrywio yn ddibynnol ar eu hateb i ail ran y cwestiwn (sawl prif drwydded dylid eu caniatáu fel uchafswm ar gyfer pob pysgodfa yng Nghymru fesul unigolyn). Dywedodd y rhai a oedd o'r farn y dylai'r uchafswm o drwyddedau fesul unigolyn fod yn 'un': "*nid yw'n bosib pysgota dwy bysgodfa ar yr un pryd*"; "*byddai mwy nag un drwydded fesul unigolyn yn rhoi pysgotwyr lleol dan anfantais*"; "*byddai un drwydded yn creu cyflogaeth yn hytrach na bwydo'r barus*" a "*byddai mwy nag un drwydded yn golygu y byddai Cocos ar ba bynnag bysgodfa nad oedd yn cael ei bysgota yn cael eu gadael i farw*".

Roedd y sylwadau gan gasglwyr Cocos o blaid 'dwy' drwydded fesul unigolyn yn cynnwys: "*byddai hyn yn lleihau'r cannoedd o bobl yn heidio at yr aberoedd ac yn gadael ysbwriel yno sydd yn niweidio'r amgylchedd*".

Roedd y sylwadau gan gasglwyr Cocos o blaid rhagor na 'dwy' drwydded fesul unigolyn yn cynnwys: "*gellir rhannu'r casglu ar draws y gwahanol welyau a fydd yn fwy cynaliadwy*" a "*yr uchafswm o drwyddedau ar gael er mwyn hyrwyddo Cocos o Gymru*".

Roedd y sylwadau o'r gymuned a sefydliadau o blaid y cynigion hyn yn cynnwys "*cefnogi cynllun pysgotwyr ifanc/prentisiaeth gyda phrentisiaeth TAC posib*" a "*chyfyngu ar y nifer o gasglwyr a gymerir a darparu gwelyau cocos cynaliadwy wrth ystyried ar yr un pryd anghenion cyflogaeth lleol*".


Roedd y sylwadau yn erbyn y cynigion a gafwyd yn cynnwys: "*petai'r bysgodfa lle rhoddir trwydded yn cau am ba bynnag reswm, ni fyddai casglwyr ym medru gweithio*" a "*Gellid ystyried cyfyngu casglwyr i ddal trwyddedau ar gyfer 2 allan o'r 4 pysgodfa yn gyfyngiad ar fasnach ac yn arwain at achos cyfreithiol efallai*".

**Cwestiwn 3 - Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ddyrannu trwyddedau i ymgeiswyr y prif bysgodfeydd?**

Fel y nodir yn y tabl isod, ar y cyfan cytunodd yr ymatebwyr gyda'r dull arfaethedig o ddyrannu trwyddedau ar gyfer y prif bysgodfeydd. O'r ymatebwyr a fynegodd farn ydw/nac ydw i'r cwestiwn hwn, cytunodd 57%.

| | |
|---|---|
| Ydw | 55% |
| Nac ydw | 41% |
| Dim sylw | 4% |

**<u>Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno</u>**




Cytunodd 52% o'r casglwyr Cocos gyda'r cynnig a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori gydag un cefnogwr yn datgan bod y cynigion yn "*gwbl deg i bysgotwyr eraill yn y cynllun*". Cafwyd sylwadau cadarnhaol eraill gan gynnwys "*mae'n rhoi gobaith i genedlaethau'r dyfodol*" ac yn "*cefnogi'r rhai lleol ac sy'n dymuno pysgota o ddifrif*". Dywedodd un cefnogwr ei fod yn cytuno "*ond dylid defnyddio data mwy modern i gefnogi'r cynllun pwyntiau. Mae "hen bennau" nad ydynt wedi bod yn pysgota am 99% o'r amser ond sydd â thrwydded ac yn cofnodi daliad o 0kg. Ni fyddai hyn yn ffafrio casglwyr modern*."

Roedd y 48% o gasglwyr Cocos a oedd yn anghytuno â'r cynigion mewn undod â'r datganiad: "*Dylai swyddogion y pysgodfeydd ddewis gan mai nhw sy'n gwybod pwy sydd wedi bod yn casglu o ddydd i ddydd*." Felly hefyd rhoddodd y rhai a anghytunodd sylw ar y fantais honedig sydd gan y rhai sydd â phrif drwyddedau eraill, o ganlyniad i'r system bwyntiau. Yn ogystal honnodd rhai y byddai'r casglwyr nad ydynt yn llwyddo i fod ar y rhestr aros yn cael eu hanwybyddu ynghyd â physgotwyr ifanc sydd heb fawr o brofiad yn y diwydiant.

Cynigiodd un sefydliad a oedd yn cytuno â'r cynigion y dylid ystyried ffactor "lleol" o fewn y system Bwyntiau.

Dywedodd un sefydliad a anghytunodd: "*nid yw'r weithdrefn ddyrannu a gynigir yn gwneud dim i ddelio â'r anghyfiawnder a brofodd rhai casglwyr ar y Ddyfrdwy sydd wedi cwrdd â'r holl feini prawf gofynnol casglu cocos cyn i*


*orchymyn cocos y Ddyfrdwy ddod i rym. Nid yw'r bobl hyn sydd ar y rhestr aros ar hyn o bryd wedi cael cyfle i gasglu'r dystiolaeth angenrheidiol er mwyn cwrdd â'r meini prawf dan y cynigion presennol, felly ni ellir fyth ddatrys yr anghyfiawnder a brofir ganddynt*". Codwyd y pryderon hyn am eithrio pysgotwyr ifanc dan y cynigion hyn gan sefydliadau â diddordeb cymunedol hefyd.

**Cwestiwn 4 - Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno isafswm maint glanio safonol o 20mm ledled Cymru? (yn amodol ar gyngor gwyddonol mewn prif bysgodfeydd a Chynllun Rheoli Lleol).**

Fel y nodir yn y tabl isod cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr â'r cynnig i safoni'r isafswm maint glanio o 20mm ledled Cymru (yn amodol ar gyngor gwyddonol mewn prif bysgodfeydd gyda Chynllun Rheoli Lleol). O'r ymatebwyr a fynegodd farn ydw/nac ydw i'r cwestiwn hwn, cytunodd 62%.

| | |
|---|---|
| Ydw | 59% |
| Nac ydw | 36% |
| Dim sylw | 5% |

**<u>Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno</u>**




Roedd 55% o'r casglwyr Cocos yn cytuno â'r cynnig i safoni'r isafswm maint glanio o 20mm ledled Cymru. Dewisodd y rhan fwyaf i beidio ag ategu at eu hatebion, er, o'r rhai a wnaeth hynny mynegwyd ganddynt y byddai'r cynnig yn "*creu canllawiau clir wrth gadw cyflenwadau ar lefel iach a rhesymol*".

Roedd 45% o'r casglwyr Cocos mewn undod wrth fynegi "*nad yw'n ymddangos bod Cocos yn tyfu mwy na 20mm mwyach*" gan ategu "*gallant farw cyn cyrraedd 20mm*". Yn ogystal mynegodd y rhai a oedd yn anghytuno bod marchnad amlwg ar gyfer Cocos llai, sy'n awgrymu petai proseswyr yn creu marchnad ar gyfer Cocos llai, yna dylid eu casglu. Awgrymodd un ymatebwr y dylid cynnal arolygon ac wedi i'r maint isafswm gael ei gyrraedd yna dylid agor y bysgodfa.

Dywedodd y Gymuned a Sefydliadau y byddai safoni maint isafswm glanio yn cael ei groesawu os gellid sicrhau ffordd i orfodi hyn. Teimlai rhai y byddai'r cynigion yn arwain at welliant yng nghysondeb y gwaith gorfodi.


Soniodd y rhai a anghytunodd â'r cynigion y byddai "17mm yn faint glanio digonol i gefnogi cynaliadwyedd" gan ategu "petai'r Cocos yn cael eu gadael gan dyfu i faint 20mm yna byddai mygu a marwolaeth y cocos yn arwain at ddirywiad amgylcheddol ac anawsterau i fioamrywiaeth".

**Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ar gyfer cofnodi daliad gorfodol ar gyfer yr holl gocos a gesglir yng Nghymru?**

Fel y nodir yn y tabl isod, roedd pawb a benderfynodd rhoi sylw ar y cynigion ar gyfer cofnodi daliad gorfodol ar gyfer yr holl gocos a gesglir yng Nghymru, yn cytuno. O'r ymatebwyr a fynegodd farn ydw/nac ydw i'r cwestiwn hwn, cytunodd 100%.

| | |
|---|---|
| Ydw | 93% |
| Nac ydw | 0% |
| Dim sylw | 7% |

**<u>Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno</u>**




Cytunodd 98% o'r casglwyr Cocos â'r cynnig, gyda'r 2% sy'n weddill yn penderfynu peidio rhoi sylw ar y cynnig.

Roedd y sylwadau cefnogol i'r cynnig yn cynnwys: "*bydd o gymorth wrth i'r gwelyau cocos gael eu rheoli'n gywir*"; "*bydd yn atal potsio*" a bydd "*yn rhoi arwydd clir o'r cyflenwadau sydd yn weddill*".

O'r 16 o ymatebwyr yn weddill, ni chafwyd anghytundeb gan yr un ohonynt â'r cynnig a dewisodd 3 i beidio rhoi sylw.

Roedd pob cymuned a sefydliad a fynegodd ateb ydw/nac ydw o blaid y cynnig hwn. Cytunodd llawer y byddai'n "*lleihau potsio a chasglu/delio anghyfreithlon o Gocos*".

Gyda'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynigion, roedd 3 sefydliad yn awyddus i gynnig/mynnu ymagwedd gydweithredol rhyngddyn nhw eu hunain fel corff a Llywodraeth Cymru i roi proses o ddogfennu cofnodi daliad ar waith, gyda'r wybodaeth yn cael ei rhannu â'r diwydiant. Byddai'r ymagwedd gydweithredol hon yn "*sicrhau diwydiant cwbl dryloyw lle byddai pob cocosyn wedi ei gyfrif, gyda system effeithiol o orfodi mewn grym*".

**Cwestiwn 6 - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.**

O'r cyfanswm o 58 o ymatebwyr, dewisodd 16 i beidio â chyfrannu rhagor o sylwadau.

Roedd y sylwadau a roddwyd o blaid cynnal cyfarfod i drafod manylion yr ymgynghoriad a gynigir:

*"Beth am gael cyfarfod y gall pawb ei fynychu.."*

*"Nid ydym wedi cael cyfarfod ynglŷn â hyn eto. Allwch chi drefnu un ar gyfer pawb?'*

*"Trefnwch gyfarfod y gall pawb ei fynychu..."*

Roedd sylwadau pellach yn awgrymu pryderon ynghylch dyrannu trwyddedau:

*"Peidiwch...â rhoi trwydded ar gyfer yr holl welyau i rai pobl ddethol yn unig. Gweithredwch yn deg gan roi ystyriaeth i fywoliaeth teuluoedd..."*

*"Mae'r cwestiynau hyn wedi eu cyfyngu'n llwyr i sicrhau anghenion ar gyfer gweithredoedd sydd eisoes wedi eu penderfynu, gan ffafrio rhai rhanddeiliaid sy'n cynhyrchu. Mae anghenion a budd ariannol cymunedau lleol sydd ynghlwm wedi eu hanwybyddu."*

*"Rwy'n gobeithio na fyddwch yn penderfynu rhoi trwydded i bobl sydd eisoes yn berchen ar un...ac yna'n achosi i bobl fel fi golli fy ngwaith..."*

*"Fel rhywun lleol hoffwn weithio'n lleol a darparu ar gyfer fy ardal leol. Nid yw cyfyngu pethau ar gyfer y dethol rai o fantais i'r ardal."*

Bu i ddetholiad o sefydliadau a chasglwyr cocos godi pryderon mewn perthynas â gorfodi'r newidiadau a sicrhau bod deiliaid trwyddedau yn cael gwybodaeth gyson:

*"Mae caniatáu casgliad personol o 5kg i'w groesawu, ond dylid pryderu serch hynny ynghylch sefyllfaoedd lle bydd achosion o gasglu personol yn digwydd fel rhan o deithiau a drefnir ar gyfer partïon o 20 neu ragor o bobl, sydd felly'n creu dalfa fwy na ellir ei rheoli."*

*"…Rydym yn cytuno â'r cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad ar reoli cocos...Yr anawsterau a wynebir ar hyn o bryd ynghylch y gallu i olrhain, casglu anghyfreithlon ac ati...wrth i bysgod cregyn ddod yn fwy poblogaidd...mae'n bosibl y bydd asiantaethau gorfodi yn profi anawsterau tebyg i'r materion a wynebir gan y diwydiant cocos ar hyn o bryd oni bai y rhoddir polisi rheoli effeithiol ar waith..."*

Defnyddiodd amryw o gasglwyr Cocos y cyfle hwn i gefnogi'r atebion a roddwyd mewn cwestiynau blaenorol. Bydd angen eglurdeb pellach ar yr ymatebion gan yr ymatebwyr er mwyn amlinellu gwahanol farnau ar y cynnig.

## Camau Nesaf

Wedi ystyried yr holl ymatebion a chanlyniadau'r arolwg, mae'r ymgynghoriad wedi cynhyrchu mandad clir i'r gofynion canlynol gael eu cyflwyno:

a) cofnodi daliad gorfodol ar gyfer holl gocos a gesglir yng Nghymru;

b) dim mwy nag wyth trwydded prif bysgodfeydd fesul unigolyn;

Fodd bynnag, daeth yn amlwg bod angen gwell eglurdeb o'r ymatebion gan yr ymatebwyr er mwyn amlinellu gwahanol farnau ar y cynnig. Roedd yn amlwg o rai o'r ymatebion nad oedd y rhesymau a roddwyd i gefnogi atebion rhai o'r cwestiynau yn cyd-fynd â'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori. O ganlyniad, gwahoddodd Llywodraeth Cymru 58 o ymatebwyr i ddatgan diddordeb mewn trafod y ddogfen ymgynghori hon gyda Staff Llywodraeth Cymru drwy apwyntiadau. Anfonwyd y datganiadau hyn o ddiddordeb at yr holl ymatebwyr er mwyn medru trefnu apwyntiad ar ffurf "cymorthfeydd" mewn lleoliad addas.

## Proses y Cymorthfeydd

Roedd Llywodraeth Cymru'n awyddus i gael gwell eglurdeb o'r atebion gan y 58 o randdeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad, gan wneud hyn drwy ddull apwyntiad mewn cymorthfeydd. Defnyddiwyd y dechneg hon yn y sector Amaethyddol i roi cymorth gyda chyflwyno ceisiadau.

Anfonwyd ffurflen Datganiad of Ddiddordeb (Atodiad B) gyda llythyr eglurhaol, drwy'r post, i'r 58 o ymatebwyr. Rhaid oedd dychwelyd y ffurflen cyn y dyddiad cau 8 Tachwedd 2013, a derbyniwyd ffurflenni gyda marc post 8 Tachwedd ond a gyrhaeddodd ar ôl hynny.

Trefnwyd apwyntiadau bob awr yn para 45 munud yr un mewn 3 lleoliad dros 4 diwrnod gan ddilyn trefn benodol. Anfonwyd llythyrau gwahodd (Atodiad C) i'r ymatebwyr a wnaeth gais am apwyntiad, gan nodi'r dyddiad, amser a lleoliad y gymhorthfa, hyd a lled y trafodaethau a'r broses ddisgwyliedig.

Cynhaliwyd y cymorthfeydd yng Nghaerfyrddin, Penlle'r-gaer a Chaernarfon. Penderfynwyd ar y lleoliadau unwaith y casglwyd y llythyrau datganiad o ddiddordeb gan drefnu yn unol â Chodau Post yr ymatebwyr.

Cymrodd 33 o ymatebwyr ran yn y broses gymhorthfa. Roedd yr ymatebwyr yn frwdfrydig am y broses ac yn ddiolchgar am y cyfle i drafod eu maes wyneb yn wyneb gyda Llywodraeth Cymru. Yn ystod y broses daeth dau brif bwynt yn amlwg:

1. Er mai 58 o ymatebion a gafwyd, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cynrychioli mwy nag un rhanddeiliad/ymatebwr. Cwblhawyd yr ymatebion a'u cyflwyno gan unigolyn/sefydliad yn cynrychioli grŵp o bobl. O ystyried hynny felly, bu'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn gryfach na'r hyn a gyflwynwyd ar yr olwg gyntaf.

2. Rhaid agor sianel gyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid, sef un y gellir ei diweddaru a'i rheoli. Dylid gwneud hyn drwy sefydlu gweithgor a fyddai'n llwyddo i ddilyn materion yn ymwneud â'r diwydiant, cynnydd mewn newidiadau rheolaethol, tawelu unrhyw siarad gwag a chreu perthynas gadarnhaol rhwng Llywodraeth Cymru a'i rhanddeiliaid.

## Ymatebion y cymorthfeydd i bob cwestiwn

Rhoddir y sylwadau ychwanegol neu'r rhai yn hytrach i'r rhai a gyflwynwyd yn wreiddiol, isod. Nid yw'r sylwadau a wnaed yn ystod y gymhorthfa a oedd yn unol â'r rhai a nodwyd yn yr ymatebion gwreiddiol wedi eu cynnwys yn yr adran hon. Canlyniad eglurhad a thrafodaethau pellach yn y cymorthfeydd yw'r ymatebion ychwanegol neu rai a ddiwygiwyd. Rhoddir canlyniad diwygiedig o'r ymgynghoriad yn ddiweddarach yn y ddogfen.

**Cwestiwn 1 - Ydych chi'n cytuno â manylion y Cynllun Trwyddedau Cymru Gyfan a'r cynllun trwyddedau penodol ar wahân ar gyfer y prif bysgodfeydd cocos dethol fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori hon?**

Roedd y sylwadau a wnaed ar y cynigion yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd amryw yn cytuno bod un drwydded (sy'n manylu bod yr unigolyn yn gasglwr cocos dilys yng Nghymru) yn "*well na chael nifer o drwyddedau*". Eglurwyd y cynnig mewn dwy ran lle byddai'r Drwydded Cymru Gyfan yn gweithio fel ID swyddogol ar gyfer casglu cocos ac yn caniatáu pysgota ar welyau cocos ardystiedig neilltuol yng Nghymru, a'r cynllun trwydded benodol a eglurwyd fel caniatadau i gasglu cocos yn y prif bysgodfeydd a ychwanegwyd at yr ID swyddogol.

Bu i bob un o'r rhai a leisiodd barn ar y cynnig hwn nodi bod angen adolygu'r enw, gan fod "Cymru Gyfan" yn awgrymu rhywbeth nad yw'n "*bodoli mewn gwirionedd*". O'r rhai eraill a fynegodd farn nodwyd pryder am ffi'r drwydded, lle "*na fydd casglwyr lleol yn medru ei fforddio*". Awgrymodd rhai y dylai "*proseswyr dalu am y trwyddedau yn gyfnewid am natur unigryw y Cocos a gasglwyd*". Er i'r sylwadau hyn gael eu nodi, mae'n bwysig ystyried iddynt gael eu crybwyll gan ymatebwyr sy'n cytuno â'r cynnig.

Bu i bob un o'r ymatebwyr a gymrodd ran yn y cymorthfeydd gytuno â'r cynnig, er i bob un ohonynt nodi y dylid adolygu rhai elfennau bach (nad yw'n effeithio ar strwythur na dilysrwydd y cynnig hwn yn yr ymgynghoriad).

**Cwestiwn 2 - Ydych chi'n cytuno y dylid pennu uchafswm trwyddedau ar gyfer pob unigolyn, er mwyn pysgota yn unrhyw un o brif bysgodfeydd Cymru? (gan gynnwys pysgodfeydd sy'n destun Gorchymyn Rheoleiddio)**

*Ac*

**Os felly, sawl Prif Drwydded ddylid eu caniatáu fel uchafswm ar gyfer pob unigolyn?**

Ar y cyfan roedd y sylwadau a wnaed ar y cynnig hwn yn gadarnhaol. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno y dylid capio'r nifer o drwyddedau prif bysgodfeydd fesul unigolyn i 1. Mae'r sylwadau a wnaed i gefnogi hyn yn adlewyrchu'r sylwadau a wnaed fel rhan o'u hymatebion gwreiddiol. Dyma rai o'r sylwadau cadarnhaol, "*Bydd hyn yn creu mwy o swyddi yn y diwydiant*", "*wedi eu mesur, eu rheoli a'u trefnu*" a "*dyma fu ein dymuniad ers tro*".

Codwyd cwestiynau ynghylch rhanddirymiadau petai gwelyau ym mhrif bysgodfeydd yr ymatebwyr yn cau, beth fyddai’n digwydd petai deiliaid trwyddedau yn anafu neu’n methu â chwrdd â 75% o’u cwota. Serch hynny, codwyd y pryderon hyn gan rai a oedd o blaid y cynnig.

Bu i’r ymatebwyr a oedd yn anghytuno yn ystod yr apwyntiadau herio cyfreithlondeb y cynnig. Mynegodd eraill na ddylid rhoi terfyn ar y nifer o drwyddedau fesul unigolyn gan y byddai hynny’n cyfyngu ar allu unigolion i gynyddu eu hincwm.

**Cwestiwn 3 - Ydych chi’n cytuno â’r dull arfaethedig o ddyrannu trwyddedau i ymgeiswyr y prif bysgodfeydd?**

Anelwyd y rhan fwyaf o’r sylwadau a wnaed ar y cynnig hwn at y bwriad o sefydlu system bwyntiau, mân newidiadau i’r broses a chyflwyno elfen o gadarnhad.

“*Dim ffordd decach*” oedd sylw a ailadroddwyd yn aml yn y cymorthfeydd.

Roedd y rhai a anghytunodd yn mynegi pryderon am beidio â medru darparu’r ddogfennaeth angenrheidiol gan eu bod wedi gorfod ceisio gwaith arall er mwyn unioni’r diffyg incwm yn sgil cau pysgodfeydd ac ati.

**Cwestiwn 4 - Ydych chi’n cytuno a□’r cynnig i gyflwyno isafswm maint glanio safonol o 20mm ledled Cymru? (yn amodol ar gyngor gwyddonol mewn prif bysgodfeydd a□ Chynllun Rheoli Lleol).**

Dewisodd amryw beidio â newid eu hatebion yn y cymorthfeydd ond roedd y mwyafrif o’r rhai a ddewisodd atgyfnerthu eu hymatebion yn erbyn y cynnig.

“*Cafodd casglwyr Burry Inlet ganiatâd i gasglu Cocos mor fach â phosibl ac wedi profi’r cyflenwad gorau ers blynyddoedd*”.

“*Angen bod yn hyblyg*”, “*19mm i fod yr un fath â Burry Inlet*” ac “*Ei leihau i 17.5mm*” oedd rhai o’r sylwadau a wnaed yn erbyn safoni’r maint isaf a ganiateir i’w gynaeafu yn 20mm.

Mae’n bwysig nodi bod y rhan fwyaf o’r ymatebwyr a fynychodd yr apwyntiadau wedi mynegi y byddent (ac felly hefyd wrth ystyried eu hymatebion) wedi dibynnu’n helaeth ar y cymal cyngor gwyddonol gan eu bod o’r farn na fyddai digon o gyflenwad 20mm ar gael i fod yn fasnachol hyfyw.


**Cwestiwn 5 - Ydych chi’n cytuno gyda’r cynigion ar gyfer cofnodi daliad gorfodol ar gyfer yr holl gocos a gesglir yng Nghymru?**
Yn ystod y cymorthfeydd, y cynnig hwn ddenodd y sylw lleiaf. Ni chafwyd unrhyw ymatebwr yn anghytuno nac yn cynnig sylw i gryfhau ei ateb.

Gwnaed sylw serch hynny, mewn perthynas â gweithredu gan awgrymu y byddai angen cael proses “*well* [nag ar hyn o bryd]’ o gofnodi daliad.

## Canlyniadau Terfynol

Nid yw'r canlyniadau isod yn ystyried yr ymatebwyr hynny a benderfynodd peidio â rhoi sylw ar y cynigion. Mae'r canrannau'n seiliedig ar y rhai a fynegodd ateb ydw/nad ydw yn unig.

**Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno â manylion y Cynllun Trwyddedau Cymru Gyfan a'r cynllun trwyddedau penodol ar wahân ar gyfer y prif bysgodfeydd cocos dethol fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori hon?**





Cytunodd 74% o'r ymatebwyr (a fynegodd ateb ydw/nac ydw) â manylder y Cynllun Trwyddedau Cymru Gyfan a'r cynllun trwyddedau penodol ar wahân ar gyfer y prif bysgodfeydd cocos dethol fel y'u nodir yn y dogfennau ymgynghori.

**Cwestiwn 2 - Ydych chi'n cytuno y dylid pennu uchafswm trwyddedau ar gyfer pob unigolyn, er mwyn pysgota yn unrhyw un o brif bysgodfeydd Cymru? (gan gynnwys pysgodfeydd sy'n destun Gorchymyn Rheoleiddio)**

*Ac*


**Os felly, sawl Prif Drwydded dylid eu caniatáu fel uchafswm ar gyfer pob unigolyn?**



Cytunodd 89% o'r ymatebwyr (a fynegodd ateb ydw/nac ydw) y dylid cael uchafswm o Brif Drwyddedau fesul unigolyn i bysgota unrhyw brif bysgodfa yng Nghymru.


O'r 89% (50 o ymatebwyr) a gytunodd â'r cynnig, mynegodd 82% (41 o ymatebwyr) y dylai'r nifer uchaf o drwyddedau fesul unigolyn fod yn ddim mwy nag 1.

**Cwestiwn 3 - Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ddyrannu trwyddedau i ymgeiswyr y prif bysgodfeydd?**





Cytunodd 61% o'r ymatebwyr (a fynegodd ateb ydw/nac ydw) â'r dull arfaethedig o ddyrannu trwyddedau i ymgeiswyr y prif bysgodfeydd.

**Cwestiwn 4 - Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno isafswm maint glanio safonol o 20mm ledled Cymru? (yn amodol ar gyngor gwyddonol mewn prif bysgodfeydd a Chynllun Rheoli Lleol).**




Cytunodd 56% o'r ymatebwyr (a fynegodd ateb ydw/nac ydw) gyda'r cynnig i gyflwyno isafswm maint glanio o 20mm ledled Cymru.

**Cwestiwn 5 - Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ar gyfer cofnodi daliad gorfodol ar gyfer yr holl gocos a gesglir yng Nghymru?**




Cytunodd 100% o'r ymatebwyr (a fynegodd ateb ydw/nac ydw) gyda'r cynigion ar gyfer cofnodi daliad gorfodol ar gyfer yr holl gocos a gesglir yng Nghymru.

## Atodiad A

**Rhestr o ymatebwyr***

Darren James Scott
David Arnold Mustoe
David Hutton
Luke Muir
Scott Clague
William Jones
David Arthur
Dennis Price
Phill Thomas
Christopher Price
Ryan Arthur
Cyngor Cymuned Llansteffan a Llanybri
Owen Harries
Phillip Rees
Alyn Rees Thomas
EA Davies
Peter Huw Thomas
D Thomas
Mark Harding
Phillip George Wassel
S Preece
Sarah Bush
Nathan Francis
Owen Davies
Ian Bartholomew
Sean Page
Dale Robinson
Mark Page
Cyfoeth Naturiol Cymru
PE, EN James ac EM Thomas
Michael Hough
James Bartholomew
Cyngor Sir Ynys Môn
Bae ac Aberoedd Caerfyrddin
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Conwy
Andrew Walters
Liam Walters
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Cyngor Sir Abertawe
Cyngor Sir y Fflint
Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
Cyngor Sir Benfro
Cyngor Sir Gaerfyrddin

** Nid yw'r uchod yn cynnwys y rhai oedd yn dymuno aros yn ddienw neu'n gyfrinachol*

## Atodiad B

**Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer Cymhorthfa**

Cymorthfeydd Ymateb i Ymgynghoriad:
Datganiad o Ddiddordeb

Enw: ______________________________________________

______________________________________________

Cyfeiriad: ______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

E-bost: ______________________________________________

Ffôn: ______________________________________________

Diddordeb mewn Pysgodfeydd Cocos

*Ticiwch un o'r blychau isod sy'n disgrifio'ch diddordeb ym Mhysgodfeydd Cocos yng Nghymru*

Casglwr Cocos ( )
Yn y Diwydiant ( )
Cymunedol ( )
Sefydliad Arall (Nodwch):______________________________

Hoffech chi gael cyfle i egluro eich ymatebion i'r ymgynghoriad gyda staff Llywodraeth Cymru mewn un o'n cymorthfeydd? (*bydd amryw o leoliadau ledled Cymru ar gael*)
Hoffwn ( ) Ni hoffwn ( )

Anfonwch i'r cyfeiriad isod erbyn dydd Gwener 8 Tachwedd 2013.
Gellir anfon datganiadau o ddiddordeb hefyd drwy e-bost at:
fisheriesmailbox@wales.gsi.gov.uk

## Atodiad C

### Gwahoddiad i Gymhorthfa

**Annwyl Randdeiliad,**

Diolch am ddatgan diddordeb mewn mynychu apwyntiad i gymhorthfa i drafod dogfen ymgynghori “Adolygiad Pellach o ddulliau Rheoli Cocos yng Nghymru 2013” a’ch ymatebion iddi.

Gallaf yn awr gadarnhau fod apwyntiad wedi ei drefnu ar eich cyfer a rhoddir y manylion ar waelod y llythyr hwn.

Sylwch ar yr wybodaeth ganlynol:

- Gadewch i mi wybod cyn gynted â phosibl a fyddwch yn bresennol drwy gysylltu â mi ar xxxxx xxxxxx. Yn anffodus dyma’r unig apwyntiad sydd ar gael i chi ac felly gwerthfawrogwn petaech yn gadael i ni wybod os na allwch fod yn bresennol.
- Bydd angen i chi fod yn bresennol 10 munud cyn amser eich cymhorthfa.
- Bydd parcio ar gael ar safle eich cymhorthfa. Atodir cyfeiriadau i chi fedru cyrraedd eich cymhorthfa.
- Bydd eich cymhorthfa’n para 45 munud ac yn dilyn y drefn a osodwyd yn y ddogfen ymgynghori gyda phob cwestiwn yn cael ei drafod yn ôl eu trefn. Bydd pobl sy’n cyrraedd yn hwyr yn cael cyfle i fynychu’r gymhorthfa os bydd amser yn weddill cyn cau’r cymorthfeydd.
- Dogfen “Adolygiad Pellach o ddulliau Rheoli Cocos yng Nghymru 2013” a’ch ymatebion iddi a drafodir yn unig. Ni fydd unrhyw ymholiadau eraill yn cael sylw a dylid cyfeirio’r materion hyn at Lywodraeth Cymru drwy’r dulliau a sefydlwyd eisoes.
- Bydd copïau o’r ddogfen ymgynghori a’ch ymatebion gwreiddiol ar gael yn ystod y gymhorthfa.

Amser eich apwyntiad yw xxxxxxxxxxxxxxxxx am xxxxxxxxxxxxxxxx.

Yn gywir,

Rhys Jones

## Atodiad D

**Ymwrthodiad Cymhorthfa**

**<u>Adolygiad Pellach o ddulliau Rheoli Cocos yng Nghymru 2013: Ymgynghoriad Cymhorthfa</u>**

**Wrth arwyddo'r ddogfen yr wyf i, y Rhanddeiliad, yn datgan fy mod yn cytuno â'r wybodaeth ganlynol ac yn ei deall:**

- Y cynigion a amlinellir yn "*Adolygiad Pellach o ddulliau Rheoli Cocos yng Nghymru 2013*" **<u>yn unig</u>**, ynghyd â'ch ymatebion a drafodir. Ni fydd unrhyw ymholiadau/sylwadau nad ydynt yn gysylltiedig yn uniongyrchol â hyn yn cael sylw yn ystod y cymorthfeydd a dylid eu cyfeirio'n hytrach at Lywodraeth Cymru drwy'r dulliau a sefydlwyd eisoes.

- Cesglir a defnyddir yr ymatebion a drafodir yn ystod y gymhorthfa hon mewn dogfen grynhoi ar y cynigion amlinellol a gyflwynir i Weinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd er ystyriaeth. Dylai'r rhai sy'n dymuno bod yn anhysbys dicio'r blwch ar waelod y dudalen.

- Ni chaniateir unrhyw ymddygiad annerbyniol ar unrhyw adeg. Bydd unrhyw ymddygiad o'r fath yn arwain at derfynu'r gymhorthfa, a diystyrir yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gofynnir i'r unigolion hynny adael y safle.

- Bydd y gymhorthfa'n para 45 munud ac yn dilyn strwythur y ddogfen ymgynghori, gyda phob cwestiwn yn cael ei drafod yn ei dro. Bydd copïau o'r ddogfen ymgynghori ar gael ynghyd â'ch ymatebion gwreiddiol. Nid oes darpariaeth ar gyfer cymorthfeydd hirach. Mae Llywodraeth Cymru'n dal yr hawl i ddod â chymhorthfa i ben unwaith y bydd yr amser dynodedig wedi mynd heibio.

Hoffwn i fy ymatebion i'r ymgynghoriad fod yn anhysbys ☐

Arwyddwyd                                        Enw mewn llythrennau bras